CYNGOR CYMUNED LLANDRILLO

LLANDRILLO COMMUNITY COUNCIL

Clerc/Clerk: Mrs Gaenor Richards,
Annedd Wen, Llandrillo, Corwen, Sir Ddinbych. LL21 0TH
☎: 01490 440262 **e-bost**: cyngorplwyf@llandrillo.cymru

Oherwydd prinder niferoedd Cynghorwyr yn bresenol, fe ohiriwyd cyfarfod mis Rhagfyr tan 4ydd o Ionawr

Cofnodion cyfarfod Nos Wener, 4ydd Ionawr 2019 a gynhaliwyd yn y Ganolfan.

Yn bresennol:
Cynghorwyr: Mrs. Eira Lewis (C), Mrs Becky Mollinson White, Mrs Rhiannon Jones, Mrs Anne Williams, Mr John W Jones, Mr Geraint Jones, Mr Huw Lloyd, Mr Brinley Owen

Cyhoedd: Mr Andy Morgan, Mr Chris Linder a Mrs Maria Williams

Clerc: Gaenor Richards

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, Mrs Eira Lewis.

2. **YMDDIHEURIADAU:** Mr David Williams

Cyn y cyfarfod, fe croesawyd Ms Alison Powell a Alec Shand atom o gwmni Arcadis i drafod a sgwrsio gyda y Cynghorwyr a'r gymuned am syniadau ar ddyfodol adeilad yr Hen Ysgol, â'r disgwyliadau ar y Cyngor Cymuned i gymryd cyfrifoldeb o reolaeth o'r adeilad.

Fe fydd Arcadis nawr yn creu adroddiad Feasibility cyn ddiwedd Mawrth i'w gyflwyno i'r Cynghorwyr. Cytunwyd i'r Cynghorwyr i fynychu cyfarfod nesa o'r Adeilad yr Hen Ysgol.

Diolchwyd iddynt am eu presenoldeb.

Yn dilyn hyn fe adawodd Maria Williams Andy Morgan y cyfarfod.

CAE CHWARAE

Yna cafwyd adroddiad gan Chris Linder am y Cae Chwarae – gwaith ar y tir wedi ei gwblhau llynedd gan Arwyn Roberts – Cyngor i ddisgwyl anfoneb am y gwaith. Y gwaith nesa yw cynnal y ffens o amgylch y cae. Mae £2,339.03 yn weddill o arian ar gyfer yr anfoneb am y gwaith ar y tir a'r ffens. Mae'r arian sydd yn weddill ar ôl gorffen y gwaith i fynd tuag at prosiect Adeilad yr Hen Ysgol.

Y cam nesa yn cynlluniau'r pwyllgor yw cael 'Multi Utility Games Area' am gost o £50,000 (trwy grant), ond penderfynwyd dileu hyn nes y daw cadarnhad o gynlluniau adeilad yr Hen Ysgol.

Fe adawodd Chris Linder y cyfarfod yn dilyn ei adroddiad.

3. **COFNODION CYFARFOD TACHWEDD 2il, 2018**
   Fe'i cafwyd yn gywir, a'u harwyddo gan Eira Lewis.

4. **MATERION YN CODI O'R COFNODION**
   - **Apêl Eisteddfod yr Urdd 2020** – fe drefnwyd pwyllgor ers y cyfarfod diwethaf. Daeth 4 i'r cyfarfod a datganwyd diddordeb gan y clwb ieuenctid i godi arian.
   - **Llwybr troed Rhos Helyg** – (tra yn trafod y mater hwn, fe ofynnwyd i B Owen adael yr ystafell ac i arwyddo ffurflen datganiad o ddiddordeb) fe yrrwyd llythyr at Mr Richards Lewis ynglŷn a pryder trigolion am y llwybr. Ni dderbyniwyd ymateb hyd yn hyn. Bydd llythyr cais yn cael ei yrru ar ran y trigolion i Sir Ddinbych i brofi bodolaeth y llwybr.
   - **Affordable Housing Commuted Sums Policy** - Fe yrrodd y clerc yn gofyn am cynrychiolaeth o'r Sir i drafod y 'Affordable Housing Commuted sums Policy'. Fe dderbyniwyd llyfryn yn egluro'r drefn.
   - **Problem Pry Lludw** – gweithiwr o'r cyngor wedi bod allan ac wedi datrys y broblem.

5. **GOHEBIAETH**
   - Cyngor wedi derbyn e-bost yn gofyn i roi enw perthynas a fu farw yn dilyn damwain yn ystod yr ail ryfel byd ar y senataff yn Llandrillo. Fe fu farw o'i anafiadau ar ôl y dyddiad penodedig o 31 Rhagfyr 1947 a benodwyd gan y Commonwealth War Graves Commission. Fe drafodwyd y mater, ac fe benderfynwyd i edrych ymhellach i'r mater cyn ymateb i'r e-bost.
   - **Ysgol Bro Dyfrdwy** – yn gofyn i'r gymuned gymryd rhan mewn prosiect celf. Clerc i ddatgan ein cefnogaeth.
   - **Ebost Mabon ap Gwynfor (copi e-bost gan James Dean)** – dal yn ymchwilio i mewn i'r gwrych ger Tyddyn Llan
   - **Llythyr gan yr eglwys** – yn diolch am dalu gost rhedeg y llif oleuadau dros ŵyl y Nadolig. Heb eu defnyddio eleni, ond pob dim yn barod i'w gosod at y flwyddyn nesa.

6. **MATERION CYNLLUNIO**
   - **07/2018/1154 – tynnu Simnai i'r drychiad cefn (Cais Adeilad Rheoledig) – Hen Bost, 7 High Street** – Dim gwrthwynebiad

7. **MATERION ARIANNOL**
   - .**Gyllideb** – fe grëwyd drafft o'r gyllideb gan y Clerc, ac fe drafodwyd yr amcangyfrifon o'r gwariant a'r derbyniadau, ac fe gytunwyd i ofyn am 'precept' o £3320 gan Cyngor Sir Ddinbych.
   - Wedi derbyn tal o £1961.00 fel taliad ola (3) o'r precept am y flwyddyn yma.
   - Wedi gyrru anfoneb i Peredur Roberts am 2 gynhebrwng yn ddiweddar – Mr Idris Jones a Mrs Iona Roberts am £300
   - Fe dderbyniwyd bil am £411.11 gan BDO (am Awdit Allanol) i gymharu a £168.45 llynedd – gyrrwyd am doriad o'r costau gan y clerc.

8. **GDPR**
   - **ICO** – Information Commissioners Office – wedi derbyn briefing gan Un Llais Cymru yn ein argymell i gofrestru â'r ICO – cost o tua £40 y flwyddyn.

9. **MATERION O'R GYMUNED**
   - 'Unrhyw Fater Arall' nawr i'w restru fel 'Materion o'r Gymuned'
   - **CYFLYMDER BAND EANG** – mae busnesau yn y gymuned yn bryderus am cyflymder y band eang yn y pentref sydd yn amharu ar gwaith eu busnes. Clerc i ymholi i Openreach

- **GYRRU YN RHOS HELYG** – daeth pryder gan trigolion Rhos Helyg y bod cerbydau yn gyrru i fyny trwy'r stad.
- **8 LLYS Y COED** yn wag yn fuan – Mabon i edrych i mewn i hyn
- **PARC CARAFANAU HENDWR** – trigolion wedi sylwi eu bod yn trin tir – edrych fel yn paratoi lle i fwy o garafanau. Clerc i gysylltu a Mabon i holi am Cais Cynllunio.
- **FFORDD YN ARWAIN I'R FYNWENT** – angen ei glirio o fwsogl ayyb. Yn beryg yn ystod y tywydd gwlyb. Clerc i gysylltu â Dion Roberts.

Arwyddwyd: …… Dyddiad : ……